# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 307(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(15 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Ailadeiladu Economaidd - Tynnwyd yn ôl

(0 munud)

## 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Nodi Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Arloesi Digidol - Ymateb i Adolygiad Brown

(45 munud)

## 6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig - Gohiriwyd tan 8 Rhagfyr 2020

(0 munud)

Ni chyflwynwyd cynnig.

## 7 Dadl: Ail Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

(30 munud)

**NDM7490** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi ail adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar y ffordd y mae Tribiwnlysoedd Cymru yn gweithredu.

Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru Ail Adroddiad Blynyddol 2019-2020

## 8 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws - Cyfyngiadau Mis Rhagfyr

(45 munud)

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2020

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 26/11/2020 i'w hateb ar 01/12/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

1. **Delyth Jewell** (Dwyrain De Cymru)
   OQ55986 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gost a amcangyfrifir ar gyfer deuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun?

2. **Mark Isherwood** (Gogledd Cymru)
   OQ55952 **(e)**

Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith tlodi sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws yng Nghymru?

3. **Russell George** (Sir Drefaldwyn)
   OQ55949 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfleusterau iechyd cymunedol yng nghanolbarth Cymru?

4. **Jack Sargeant** (Alun a Glannau Dyfrdwy)
   OQ55953 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl sydd â phrofiadau niweidiol lluosog yn ystod plentyndod?

5. **Rhun ap Iorwerth** (Ynys Môn)
   OQ55984 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y trefniadau ym mhorthladd Caergybi ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben?

6. **Darren Millar** (Gorllewin Clwyd)
   OQ55964 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am welliannau i'r GIG yng ngogledd Cymru?

7. **Laura Anne Jones** (Dwyrain De Cymru)
OQ55985 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella diogelwch ar y ffyrdd yn Sir Fynwy?

8. **Leanne Wood** (Rhondda)
OQ55985 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi yn y Rhondda?

9. **Andrew R.T. Davies** (Canol De Cymru)
OQ55957 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y bobl sydd wedi marw ar ôl cael y coronafeirws yn ysbytai Cymru?

10. **Jenny Rathbone** (Canol Caerdydd)
OQ55983 **(e)**

Sut mae polisi rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â datgoedwigo byd-eang?

11. **Neil Hamilton** (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
OQ55963 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ar gyfer etholiadau sydd i ddod yng Nghymru?

12. **Alun Davies** (Blaenau Gwent)
OQ55962 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiad economaidd trefi?